# YR ATODLEN

## **Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau**

## **Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985**

### *Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion dymchwel*

**48.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 317(1) o Ddeddf 1985 (cais gan lesydd neu lesddeiliad mangre y daeth gorchymyn dymchwel yn weithredol mewn perthynas â hi, am orchymyn yn amrywio neu'n terfynu les).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r les berthnasol; ac

(ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les, ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.